Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Hydref 2019.

1 Presennol – Edward Evans (Cadeirydd) – Bryncir, John Jones, Anwen Humphreys, Clifford Williams Dylan Pritchard – Garndolbenmaen, Gwilym Evans Richard Williams – Prenteg, Huw Pritchard, Delyth Evans – Pentrefelin, Megan Ll Williams – Golan, Gwenno Huws – Penmorfa.

Croesawyd Dylan Pritchard i'w gyfarfod cyntaf ac arwyddodd Datganiad Derbyn Swydd.

2 Ymddiheuriadau – Amanda N Owen, Richard Parry, Dafydd Thomas, Iddon Edwards, Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

3 Ddim yn bresennol- neb.

4 Datgan buddiant – Megan Ll Williams eitem 9 Adroddiad Pentrefi.

5 Cywirdeb y cyn-gofnodion – 5/9/19 Clifford Williams yn datgan eu cywirdeb a Gwilym Evans yn eilio.

6 Materion yn codi o'r cyn-gofnodion

Problemau Parcio Garndolbenmaen – nid yw'r arwydd wedi cael ei osod. Clerc i gysylltu gydag Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd.

Rheilffordd Eryri – cysylltu eto i gael manylion y person sydd fod i ymateb i'r ymholiad.

Materion Priffyrdd

Prenteg – arwydd i'w weld yn ei le. Clerc i gysylltu eto i egluro ei bod yn cyfeirio at arwydd arall.

Bryncir – Archwiliwr Priffyrdd a swyddogion eraill o'r Cyngor mewn trafodaethau gyda'r contractwr ynglŷn â hyn.

Golan – gwaith adfer y broblem ar y ffordd wedi ei roi ar y rhaglen waith i'w ymgymryd yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cwmystradllyn – Archwiliwr Priffyrdd am gysylltu i drefnu cyfarfod.

Garndolbenmaen – Archwiliwr Priffyrdd am archwilio'r safle a chymryd y camau priodol.

Baw Ci

Bydd y Warden Gorfodaeth Stryd yn cynnal patrolau ychwanegol ac yn asesu'r angen am arwyddion ychwanegol yng Ngarndolbenmaen a Phentrefelin.

Penderfynwyd cysylltu gyda Rheolwr Gwasanaethau Stryd i drefnu cyfarfod gyda'r Warden yn y 2 ardal.

Ciosg BT Cwmystradllyn

Disgwyl ateb gan BT.

7 Mynwentydd

Mynwent Bethel

Pris cyflenwi bin - penderfynwyd derbyn y pris am osod bin yn y Fynwent. Clifford Williams yn cynnig a Huw Pritchard yn eilio.

Gwaith lledu'r llwybrau, clirio o dan y fainc a'r gornel ar y dde - derbyniwyd un pris am wneud y gwaith. Penderfynwyd aros i gael prisiau gan gontractwyr eraill. Gwilym Evans yn cynnig a Megan Ll Williams yn eilio.

Prenteg

Darn gwaelod y Fynwent heb gael ei dorri. Atgoffa'r Contractwyr i fynd a'r glaswellt oddi yno.

Penmorfa

Scottish Power angen torri canghennau ar rhai o'r coed. Rhoddwyd caniatâd iddynt wneud hyn ar yr amod ei bod yn clirio'r canghennau o'r Fynwent.

8 Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr Glanaber i Glangors – llwybr yn cau. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd am gerdded y llwybr a threfnu i'w dorri.

9 Adroddiad Pentrefi

Pentrefelin

Mynediad i Bryn Tyddyn - dau ddarn o laswellt. Un wedi cael ei dorri ac angen gwneud yr ail ddarn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Cwmystradllyn

Hen safle y Bwrdd Dwr - angen tacluso'r safle a chael gwared â'r tanciau CO_2. Clerc i gysylltu gyda'r Bwrdd Dwr.

Garndolbenmaen

Angen ysgubo'r pentref. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Prenteg

Cyffordd A498/B4410 - cysylltwyd gyda'r Adran Priffyrdd ym mis Ionawr ynglŷn â'r garreg sydd yno. Cysylltu eto i ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa.

10 Cyfethol Cynghorwr Ward Pentrefelin

Derbyniwyd llythyr gan Manon Jones Evans yn datgan diddordeb mewn llenwi sedd wag Pentrefelin. Penderfynwyd ei gwahodd i ymuno a'r Cyngor.

11 Archwiliad Allanol

Cyfrifon 2018 – 2019 - wedi ei derbyn yn nôl gan Swyddfa Archwilio Cymru. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd y Cyngor wedi nodi'r cyfeirnod Cofnodion a'r dyddiad ar gyfer cymeradwyo'r datganiadau cyfrifo a'r datganiad llywodraethiant blynyddol. Fel arall, roeddent yn gywir.

12 Gohebiaeth

Llythyrau gan Cyngor Gwynedd – E-bost eiddo ar osod ym Mhrenteg.
Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 – 2031.
b Llythyr Mabon ap Gwynfor – Canolfan Diagnosis Canser – cefnogi a diolch iddo.
c Llythyr Llu Awyr Brenhinol y Fali.
ch Mantell Gwynedd – Hyfforddiant Ymddiriedolwyr.

13 Cynllunio

Rhestrau 9/9, 13/9, 23/9/19. Ychwanegwyd 27/9/19.

Ceisiadau Cynllunio

NP2/16/LB192 - Addasiadau hwyluso byw. Tŷ Newydd, Cwmystradllyn. LL51 9BQ.
NP2/16/LB192A Gosod paneli celloedd ffotofaltig(4) ar ongl o 39 gradd, 1 m oddi ar y ddaear a'r holl offer angenrheidiol, gosod ffenestri to math cadwraeth ar y to drychiad Dwyreiniol, creu mynediad drwy'r talcen i drosi'r penty yn ystafell ymolchi ac ychwanegu to dros y porth i'r drws blaen. Tŷ Newydd, Cwmystradllyn. LL51 9BQ Dyddiad cau 1/10/19. Gwrthwynebu'r syniad o osod y paneli celloedd ffotogaltig ar y ddaear, gan na fyddant yn gweddu o gwbl â'r tirlun unigryw o gwmpas y safle.

C19/0873/36/LL Codi modurdy ar wahan. Hen Felin, Pentrefelin. LL52 0RB Dim gwrthwynebiad.

14 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: Parêd Dewi Sant. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£237.99
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00

HMRC = £ 61.63
Y Ffynnon (2 hysbyseb) = £ 28.00
Antur Waunfawr = £ 6.00
Ychwanegwyd:
Swyddfa Archwilio Cymru = £ 253.58
Aled Jones = £ 75.00
Derbyniadau: Cyngor Gwynedd Praesept £9000
Balansau Cyfrifon: Cadw £16,818.40 Cyfredol £15,287.74

15 Dewis gohebiaeth i fynd i'r wasg/gwefan

- Cynghorwr Newydd
- Ceisiadau Cynllunio
- Cyfrifon 2018 – 2019
- Bin Mynwent Bethel
- Llythyr Mabon ap Gwynfor – Canolfan Diagnosis Canser

Gwefan – Cofnodion Medi, Manylion Cynghorwr Dylan Pritchard, Cyfrifon.